Cydlynydd Digwyddiadau Bwyd Caerdydd

Cefndir y Prosiect

Yn dilyn llwyddiant "Caerdydd yn Tyfu Gyda'i Gilydd", prosiect ar y cyd i ddosbarthu bron 14,000 o blanhigion, hadau a phecynnau tyfu yn ystod y cyfyngiadau symud, mae Bwyd Caerdydd yn cefnogi gŵyl fwyd diogel o ran Covid-19 ar draws y ddinas er mwyn cefnogi cymunedau i dyfu eu bwyd eu hunain, rhannu cynnyrch, cysylltu â chymunedau ac adeiladu gwytnwch trwy gam nesaf adferiad Covid-19

Bydd yr "ŵyl" yn cynnwys cyfres o ddigwyddiadau rhithwir a digwyddiadau lle bydd yn rhaid cadw pellter cymdeithasol yn ystod y mis fydd yn arwain at Ddiwrnod Bwyd y Byd ar 16 Hydref. Gallai digwyddiadau gynnwys:

- Cyfnewid cynnyrch: gall pobl gyfnewid cynnyrch, dod â'u llysiau sy'n haeddu gwobr / rhyfeddaf, rhannu planhigion a hadau, dysgu rhai sgiliau newydd (cadw hadau er enghraifft)
- Prydau cymunedol: gall pobl roi cynnyrch (wedi'i dyfu neu ei brynu) a mwynhau pryd gyda'i gilydd
- Dewch â'ch picnic eich hun: grwpiau o gymdogion yn rhannu picnic gyda'i gilydd
- Llwybr planhigion: dilynwch fap o ardal leol a chynaeafu cynnyrch/cynhwysion o wahanol fannau
- Dyddiau agored gerddi cymunedol: gall grwpiau bach o bobl ymweld â'u gerddi cymunedol lleol i gynaeafu cynnyrch neu gasglu planhigion ar gyfer y gaeaf
- Gweithdai ar-lein: plannu yn yr hydref, cadw hadau, coginio gyda chynnyrch

Rôl a Chyfrifoldebau'r Cydlynydd Digwyddiadau

Hoffai Bwyd Caerdydd gontractio gweithiwr llawrydd neu gwmni Rheoli Digwyddiadau i gefnogi sefydliadau a grwpiau ar draws y ddinas i gynllunio, trefnu a chynnal digwyddiadau ar y thema bwyd da, yn benodol i wneud y canlynol:

- Rheoli'r ŵyl, gan sicrhau bod yr holl elfennau yn cael eu cyflawni yn unol â therfynau amser
- Rhoi cefnogaeth 1-1 a grŵp i bartneriaid allweddol sy'n cymryd rhan yn yr ŵyl, yn enwedig o ran diogelwch a chynllunio wrth gefn
- Datblygu pecyn cymorth digwyddiadau ar gyfer dewis ehangach o grwpiau cymunedol, gan gynnwys cymorth gyda diogelwch, asesiadau risg, canllawiau sut-i-wneud, cynlluniau gwerthuso
- Gweithio gyda Rheolwr Rhaglen Dewch at eich Gilydd Bwyd am Oes a phartneriaid lleol, gyda'r Intern Digwyddiadau ac ar draws y bartneriaeth Bwyd Caerdydd i annog sefydliadau a grwpiau cymunedol i gynnal digwyddiadau
- Llunio, monitro a hyrwyddo rhaglen yr ŵyl
- Cefnogi datblygiad creadigol y pecyn cymorth ac ymgyrchoedd marchnata ehangach
- Cefnogi grwpiau i gysylltu â Phartneriaid Ymateb Bwyd i ddefnyddio cynnyrch i sicrhau nad oes unrhyw beth yn cael ei wastraffu
- Dylunio a gweithredu'r cynllun gwerthuso prosiect

Disgwyliwn y bydd angen i chi weithio ar y rôl hon am 1-2 ddiwrnod yr wythnos rhwng 27 Awst a 23 Hydref.

Cyflawniadau'r Prosiect

Bydd dros 1,200 o bobl yng Nghaerdydd yn mynychu 35 digwyddiad, yn cynnwys:

6 digwyddiad ar raddfa fawr gyda hyd at 200 yn bresennol ym mhob digwyddiad (gyda slotiau ar adegau gwahanol i sicrhau diogelwch a chadw pellter cymdeithasol)

24 digwyddiad ar raddfa fach gyda 5-20 yn bresennol ym mhob digwyddiad

5 gweithdy ar-lein gyda 10-30 yn bresennol ym mhob gweithdy

Mae angen i'r digwyddiadau hyn gael eu cynnal rhwng 12 Medi a 16 Hydref

Manyleb y Person

Hanfodol

- O leiaf 3 blynedd o brofiad Rheoli Digwyddiadau a Phrosiectau
- Dealltwriaeth o ddiogelwch digwyddiadau, hylendid bwyd a chynlluniau wrth gefn, yn enwedig o ran Covid-19
- Gwybodaeth ymarferol am reoliadau digwyddiadau (cenedlaethol a lleol)
- Sgiliau cyfathrebu da, gan gynnwys Saesneg ysgrifenedig a llafar rhugl
- Deall gwerthoedd Bwyd Caerdydd a phwysigrwydd bwyd da
- Gweithio mewn partneriaeth, yn enwedig y gallu i ymgysylltu, ysbrydoli ac annog grwpiau cymunedol
- Dull creadigol o weithio gyda phrinder adnoddau
- Talu sylw i fanylion, y gallu i weithio'n annibynnol a defnyddio menter
- Trefnus iawn, yn gallu rheoli amser yn dda a gweithio i derfynau amser tynn
- Wedi'i leoli yng Nghaerdydd neu gerllaw, a gwybodaeth ymarferol am y ddinas

Dymunol:

- Gwybodaeth ymarferol am y system fwyd a'r rhaglenni Lleoedd Bwyd Cynaliadwy a Dewch at eich Gilydd Bwyd am Oes

Amserlen

Dyddiad cau ar gyfer gwneud cais: 5pm 23 Awst 2020

Trafodaethau gyda chwmnïau/gweithwyr llawrydd ar y rhestr fer a phenderfyniad terfynol: 24 Awst 2020

Dyddiad dechrau a gorffen y contract: 27 Awst 2020 - 23 Hydref 2020

Cyllideb

Hyd at £2,500.

Sut i wneud Cais

E-bostiwch CV a chynnig yn manylu ar eich addasrwydd ar gyfer y contract, gydag enghreifftiau o sut rydych chi'n cwrdd â'r meini prawf uchod i pearl.costello@wales.nhs.uk erbyn 23 Awst 2020.